

Dadansoddiad CGCB (SWOT)

Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau

Mae'r offeryn hwn yn cynnig dull o ddadansoddi data ac mae'n canolbwyntio ar ddatrysiadau.

Pam mae'n cael ei ddefnyddio?

Mae'n galluogi grŵp i ddadansoddi ffyrdd posib o weithredu.

Sut mae mynd ati?

- Penderfynwch ar sefyllfa neu canolbwyntiwch ar agwedd benodol o'r sefydliad. Gall cyfranogwyr weithio naill ai'n unigoli neu mewn grwpiau.
- Gall pob grŵp ystyried y pedair elfen neu gellir dewis un agwedd i bob grŵp edrych yn fanwl arni.

Cryfderau (Y tu mewn i'r sefydliad fel arfer)	Gwendidau (Y tu mewn i'r sefydliad fel arfer)	Cwestiynau i'w hystyried Sut allwn ni fanteisio ar ein cryfderau? Sut allwn ni ymdrin â'n gwendidau?
Cyfleoedd (Yn aml ag ystyriaethau y tu hwnt i'r sefydliad)	Bygythiadau (Yn aml ag ystyriaethau y tu hwnt i'r sefydliad)	Sut allwn ni sicrhau ein bod yn manteisio ar gyfleoedd? Sut allwn ni ragweld neu liniaru bygythiadau a datblygu strategaethau i'w troi nhw'n gyfleoedd?

Diemwnt naw


Bwriad yr offeryn hwn yw ysgogi llawer o drafodaeth rhwng staff mewn cyfnod cymharol fyr o amser.

Pam mae'n cael ei ddefnyddio?

Mae'n galluogi grŵp i gytuno ar restr fer o flaenoriaethau yn gyflym.

Sut mae mynd ati?

- Mae cyfranogwyr yn cael rhestr faith o bynciau neu gwestiynau. Gofynnir iddynt ddewis 9 o'r eitemau pwysicaf a'u gosod ar grid ar ffurf diemwnt fel hwn.
- Gosodir yr eitem bwysicaf ar frig y diemwnt. Gosodir yr eitem leiaf pwysig o'r 9 ar waelod y diemwnt. Mae gan eitemau ym mhob rhes bwysigrwydd cyfartal.



Cynllunio gweithredu fel grŵp

Mae'r fformat hwn ar gyfer cynllunio gweithredu yn gweithio am yn ôl o weledigaeth ar y cyd ac mae'n annog grwpiau i ystyried y newidiadau penodol maen nhw eisiau eu cyflawni cyn penderfynu ar gamau, adnoddau, amserlen ac ati.

Pam mae'n cael ei ddefnyddio?

Mae'n galluogi grŵp i adnabod y camau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r deilliant terfynol.

Sut mae mynd ati?

- Cam 1: Mae'r grŵp yn cytuno ar weledigaeth ar gyfer yr agwedd o ymarfer y maent am ei newid a'i nodi'n gryno yn y blwch melyn.
- Cam 2: Yna, maent yn dychmygu bod eu hymyriad arfaethedig wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac yn ystyried sut fyddai gwahanol agweddau ar yr arfer yn edrych; beth fyddai'n digwydd i athrawon, disgyblion, ac ati. Cofnodir hyn yn y blychau oren.
- Cam 3: Yna, ar gyfer pob blwch oren, maent yn ystyried sut y mae hyn ar hyn o bryd. Cofnodir hyn yn y blychau glas.
- Cam 4: Yna, maent yn penderfynu beth yw'r cam gweithredu cyntaf ar gyfer pob un o'r blychau glas. Weithiau bydd un cam yn ymdrin â mwy nag un agwedd. Cofnodir hyn yn y blychau gwyrdd.

Yn olaf, gall hyn fwydo i fformat cynllunio gweithredu mwy ffurfiol sy'n nodi targedau CAMPUS, gan nodi pwy fydd yn cymryd y camau ac unrhyw adnoddau angenrheidiol.

GWELEDIGAETH


Ein gweledigaeth yw...

Os buom yn hynod lwyddiannus, dros y () mis nesaf fe welwn y canlynol:

DEILLIANNAU
PENODOL

SEFYLLFA
BRESENNOL

CAMAU
GWEITHRED
U CYNTAF



Dotocratiaeth

Pam mae'n cael ei ddefnyddio?


Mae'n galluogi grŵp i nodi meysydd blaenoriaeth.

Mae'r offeryn hwn yn helpu gyda chonsensws a blaenoriaethu.

Sut mae mynd ati?

Caiff pob unigolyn nifer penodol o ddotiau gludiog maent yn eu defnyddio fel 'pleidleisiau'. Yr hwylusydd sy'n penderfynu ar nifer y dotiau.

- Rhaid i bawb ddefnyddio'u holl bleidleisiau.
- Mae modd rhannu pleidleisiau; er enghraifft, os oes pum dot, gallwch ddefnyddio'r pump mewn un bleidlais neu rannu'r pleidleisiau yn 2,2,1, a.y.b.



Gellir ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd:

- Os yw grŵp wedi cynhyrchu llawer o syniadau ac angen cytuno ar ba un i'w ddatblygu.
- Os defnyddir dotiau coch, oren a gwyrdd, gall pleidleiswyr nodi eu dewis gorau gyda gwyrdd a'r lleiaf
- poblogaidd gyda choch, ac ati.

Meddwl pelydrol

Mae'r offeryn hwn yn debyg i fapio meddwl grŵp. Mae'n gwneud i bobl feddwl yn fwy treiddgar am fater a gall arwain pobl i ystyried pwnc o wahanol safbwyntiau.


Sut mae'n gweithio?

- Cymerwch ddalen fawr o bapur
- Gan gychwyn ar waelod neu ymyl chwith y papur, ysgrifennwch y cwestiwn allweddol yr hoffech ei drafod a mynd ati i feddwl amdano. (Mae fframio'r cwestiwn hwn yn dda yn help mawr i'r gweithgaredd lwyddo)
- Gofynnwch i'r grŵp awgrymu ymatebion i'r cwestiwn, cytunwch fel grŵp ar sut i grynhoi'r ymatebion allweddol, a'u hysgrifennu yn y blychau ymateb.
- Ystyriwch: Pa gwestiynau pellach sy'n codi o hyn?
- Cofnodwch yr haenau nesaf o ymatebion

Pan fydd gennych ddigon o ymatebion a syniadau, efallai yr hoffech dynnu'r rhain o'r daflen a gofyn i'r grŵp eu blaenoriaethu gan ddefnyddio proses wahanol.

Pam mae'n cael ei ddefnyddio?

Mae'n galluogi grŵp i ystyried gwahanol safbwyntiau.



Graddio COG

Pam mae'n cael ei ddefnyddio?

Mae'n galluogi grŵp i gofnodi eu barn yn weledol.

Yn syml, mae'r strategaeth hon yn gofyn i bobl gofnodi eu barn mewn perthynas ag agwedd benodol ar yr ysgol, gan nodi:

- Pethau rydym ni'n eu gwneud yn dda eisoes (papur post-it gwyrdd)
- Pethau rydym ni'n eu gwneud yn weddol, neu y gallwn wella (papur post-it oren)
- Pethau nad ydym yn eu gwneud cystal neu bethau nad ydym eu gwneud o gwbl (papur post-it coch)

Wedi'r ymarferiad hwn, gallai'r grŵp edrych ar y pethau oren a holi cwestiwn am un neu ddau ohonynt, er enghraifft, "Beth sy'n rhwystro hyn rhag gweithio cystal ag y gallai?"

Yn yr un modd, gallech gymryd y papurau post-it coch a holi pa un o'r rhain ddylai fod yn flaenoriaeth i'w datblygu. Gallech ddefnyddio diemwnt naw neu ddotocratiaeth ar gyfer hyn.

What are we doing well?	
What could we do better?	
What more could we do?	

www.workshopbank.com

Adeiladu Tîm Datrys Problemau (ATDP)

Pam mae'n cael ei ddefnyddio?

Mae'n galluogi grŵp i ddatblygu atebion i achosion craidd problemau.


Mae'r strategaeth hon yn rhoi modd i wneud cynnydd ar broblem sydd yn anodd i'w thrin drwy ddefnyddio pŵer y tîm. Mae'n gweithio'n groes i gyfarfodydd anstrwythuredig a hirwyntog hynny sy'n trafod problemau ond sydd pur anaml yn cytuno ar ffordd ymlaen. Mae'n cynnig dull strwythuredig o fynd i'r afael â phroblem ac mae 'perchennog y broblem' yn gadael gyda chynllun gweithredu.

Sut mae mynd ati?

Mae'r tîm yn gweithio gyda 'pherchennog y broblem', gyda chymorth hwylusydd, i greu rhestrau ar siart droi yn dilyn y camau isod:

- Datganiad o'r broblem: Cwestiwn "Sut wna'i...?" syml
- Cynhyrchu syniadau: storm syniadau sydyn i bawb
- Dewis syniad: perchennog y broblem yn dewis dau neu dri o'r syniaau mwyaf addawol
- Manteision a phryderon: asesu pob un o'r syniadau a ddewiswyd
- Pryderon difrifol: gellir dileu syniad os na ellir ei oresgyn
- Cynlluniau gweithredu: darparu glasbrint i fynd i'r afael â'r broblem

30-minute example



Storm syniadau

Mae storm syniadau yn dechneg syml a ddefnyddir yn aml gydag offerynnau mwy soffistigedig, Mae'n annog aelodau'r grŵp i feddwl yn rhydd ac yn eang, mynd tu hwnt i ffiniau meddwl arferol a chynhyrchu syniadau o'r newydd.

Pam mae'n cael ei ddefnyddio?

Mae'n galluogi grŵp i gasglu gwahanol safbwyntiau ar fater.


Sut mae mynd ati?

Yn ystod y sesiwn

- Nodi'r broblem neu'r pwnc yn glir a sicrhau bod pawb yn deall
- Esbonio'r broses a'r cyfyngiad amser
- Annog unigolion i gyfrannu syniadau'n rhydd
- Derbyn y syniadau heb roi barn a chyfrannu ychydig syniadau'n unig yn bersonol

Ar ôl y storm syniadau

- Gall y grŵp edrych ar y syniadau fesul un a naill ai ymhelaethu, cyfuno neu gael gwared ar rai
- Os oes angen blaenoriaethu syniadau, gwahodd y cyfranogwyr i bleidleisio



Dadansoddiad asgwrn pysgodyn

Daw enw'r strategaeth hon o sut mae'n edrych pan gwneir llun ohoni, efo problem ar un ochr. Mae 'asgwrn cefn' yn ymestyn o'r broblem efo llinellau yn dod ohoni, ac ar y rheiny y mae'r tîm yn nodi is-faterion.


Sut mae mynd ati?

Rhoi modd i grwpiau ddeall graddfa a hyd a lled newidiadau. Hefyd yn helpu i ddeall gwraidd problemau.

Sut mae mynd ati?

- Nodi'r broblem ar yr ochr dde ar ddarn mawr o bapur.
- Tynnu llinell syth, lorweddol i'r chwith (fel asgwrn cefn pysgodyn).
- Tynnu llinellau ar ongl 45° i linell yr asgwrn cefn
- Ar ddiwedd pob un o'r llinellau hyn, nodi pum neu chwe ffactor allweddol
- Torrwch bob ffactor allweddol yn is ffactorau y mae'n rhaid eu deall cyn symud ymlaen i ddatrysiadau yn y cam datblygu.

Sylwch: ceisiwch annog y tîm i drafod syniadau am bob 'asgwrn cefn' yn ei thro. Efallai y gallai pob aelod gymryd cyfrifoldeb am hwyluso trafod syniadau un brif asgwrn. Fel hyn, mae'n ymarferiad meithrin tîm hefyd.



Wrth weithio fel hyn, mae timau yn dechrau deall yr elfennau sy'n cyfrannu at y broblem dan sylw.

Mae dadansoddiad asgwrn pysgodyn yn strategaeth dda i helpu timau edrych ar anawsterau gweithio'n aml asiantaethol, er enghraifft.

Pump pam

Mae'r offeryn hwn yn debyg i'r dadansoddiad asgwrn pysgodyn. Mae'r dechneg yn dechrau gyda datganiad clir o'r broblem/mater ac yn gadael i dimau holi'r datganiad gyda'r cwestiwn, "Pam?", wedi'i ailadrodd bum gwaith.


Defnyddiwyd 'pump pam' a 'dadansoddiad asgwrn pysgodyn' gan ysgolion er mwyn osgoi symud i "ddatrys" problem yn rhy fuan, ble gall atebion ymdrin â symptomau yn hytrach na chael gwared ar yr achosion.

Sut mae mynd ati?

- Dechreuwch eich dadansoddiad trwy ysgrifennu datganiad cryno ar ochr chwith dalen fawr o bapur.
- Symudwch i'r dde a gofyn "Pam hynny?"
- Nodwch yr atebion mewn ymadrodd byr a chryno
- Yn raddol, gweithiwch o'r chwith i'r dde gan holi "Pam?" ar bob lefel o ddadansoddi.
- Ceisiwch weithio pob cangen o'ch dadansoddiad i bum lefel, neu nes i chi gyrraedd achos craidd y broblem, cyn dychwelyd i lefel uwch a dadansoddi cangen arall o'r mater.

Pam mae'n cael ei ddefnyddio?

Mae'n helpu timau i ddeall achos craidd problemau neu bwnc.



Matrics blaenoriaethu

Mae'r offeryn gweledol hwn yn ffordd gyflym ac effeithiol o gynhyrchu consensws yn y grŵp ynghylch beth ddylai fod yn flaenoriaeth.

Sut mae mynd ati?

Rhestrwch yr holl bosibiliadau gweithredu a'u graddio yn ôl:

- **Effaith:** petaem yn gwneud hyn, pa effaith bositif fyddai'n ei gael ar gyflawni ein hamcan? (Isel, canolig, uchel)
- **Dymunoldeb:** faint o frys sydd yna i gyflawni'r dymuniad? (Isel, canolig, uchel)

Yna plotiwch bob un ar y matrics gan addasu eu lleoliad er mwyn cyrraedd dosbarthiad synhwyrol.

Ysgrifennwch bob eitem ar *post-it* yna, fesul un, gofynnwch i'r tîm raddio'r eitemau ar sail effaith a dymunoldeb.

Y deilliant delfrydol yw cael eitemau wedi eu dosbarthu ar draws y matrics fel mai dim ond ychydig sydd yn y blwch uchaf ar y dde.

Pam mae'n cael ei ddefnyddio?

Mae'n galluogi grwpiau i roi nifer fawr o eitemau, megis heriau neu gyfleoedd, ar restr fer sy'n fwy hylaw.

